

Llwybr Arfordir Penfro - Llwybr Cenedlaethol

Mae'r llwybr yn dirwyn ar hyd 186 milltir (299km) o dirwedd drawiadol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, o Landudoch yn y gogledd i Amroth yn y de. Mae'n un o'r 15 Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhain yn llwybrau cerdded pellter hir o'r radd flaenaf, a phob un ohonynt wedi'u dynodi gan fynegbyst ag arnynt lun mesen. Rheolir y Llwybr Cenedlaethol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan ddefnyddio cyllid gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Gwybodaeth bellach

Mae gan y Parc Cenedlaethol dair Canolfan Hysbysrwydd sy'n gwerthu mapiau, tywyslyfrau, taflenni a llawlyfr lletya ar gyfer y sawl sydd am gerdded Llwybr yr Arfordir. Mae'r canolfannau hyn yn:

Trefdraeth Bythynnod y Banc, Stryd Hir (01239) 8320912

Tyddewi Oriol y Parc (01437) 720392

Dinbych-y-pysgod South Parade (01834) 845040

Dylid anfon ymholiadau ysgrifenedig at:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

Sir Benfro

SA72 6DY

Ffôn: 0845 345 7275

E-bost: pcap@arfordirpenfro.org.uk

www.arfordirpenfro.org.uk



Edrychwch ar y wefan i gael rhagor o wybodaeth am y Llwybr Cenedlaethol ac am nifer o'r teithiau cylch sydd ar gael.

Mae Canolfannau Croeso hefyd yn Aberteifi, Abergwaun, Wdig, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro, Doc Penfro, Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot.

Côd diogelwch ar Lwybr yr Arfordir

Cymrwch ofal mawr ar Lwybr yr Arfordir - mae'n dirwedd naturiol a charegog

- ◆ Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd oddi wrth ymylon a bargodion clogwyni
- ◆ Cadwch lygad ar blant bob amser, yn enwedig gerllaw ymylon clogwyni
- ◆ Mae'r arwynebau cerdded yn gallu amrywio'n sylweddol yn ôl y tywydd. Mae'r glaswellt ar gopa'r clogwyni yn gallu bod yn arbennig o lithrig. Cofiwch wisgo esgidiau cryf sydd â gfael da ar bob adeg
- ◆ Gwisgwch neu gariwch ddillad cynnes sy'n dal dwr
- ◆ Gall cerdded ar y colgwyni fod yn beryglus mewn gwyntoedd cryfion
- ◆ Gochelwch rhag cymryd y ffordd fyrraf ar draws traethau - gallwch gael eich ynysu gan y llanw. Gall nofio fod yn beryglus hefyd
- ◆ Peidiwch ag eistedd dan y clogwyni na'u dringo
- ◆ Cadwch gwn dan reolaeth ac yn agos atoch
- ◆ Cofiwch - ar gyfer cerddwyr y mae'r Llwybr. Nid yw'r rhan fwyaf ohono yn addas nac yn ddiogel ar gyfer beicio a merlota.



Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2012

MILLIROEDD

Llwybr Arfordir Sir Benfro Llwybr Cenedlaethol



